

| | |
|--------------------------------|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Craffu Perfformiad |
| Dyddiad y cyfarfod | Dydd Iau, 26 Tachwedd, 2020 |
| Aelod/Swyddog Arweiniol | Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Julian Thompson-Hill – Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| Awdur yr Adroddiad | Iolo McGregor, Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad |
| Teitl | Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Medi 2020 |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad mis Medi o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried y diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn gwneud sylwadau.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd yn datblygu a pherchen ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ochr yn ochr â'r Cabinet. Caiff ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn frifio'r Cabinet.

4.2. Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

4.3. Cyflawnwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2020.

Canllaw Awch am Risg a Rheoli Risg

4.4. Mabwysiadwyd dull awch am risg newydd y Cyngor flwyddyn yn ôl, a chytunwyd y byddai'n cael ei adolygu yn ystod diweddariad mis Medi. Ar y cyfan, nid yw ychwanegu awch am risg i'n dull o reoli risg wedi bod yn feichus, ac mae wedi ychwanegu gwerth i'n trafodaethau, yn enwedig tra'n ystyried sgorio risg a mesurau i'w lliniaru. Serch hynny, fe argymhellir y newidiadau canlynol er mwyn gwella defnydd a dealltwriaeth y sefydliad o awch am risg:

- Yn seiliedig ar adborth gan swyddogion, ac i gyd-fynd â defnyddio templedi hygyrch newydd, rydym wedi gwneud y canllaw rheoli risg yn fwy eglur o ran sut mae sgorio risg yn gysylltiedig â'r meini prawf uwchgyfeirio, ac yn ei dro, lefel difrifoldeb y risg rydym ni'n fodlon ei dderbyn o fewn pob meini prawf awch am risg. Er enghraifft, mae awch gofalus yn golygu mai dim ond risgiau bychan neu gymedrol y byddwn ni'n eu goddef. Mae'n matrices sgorio newydd a chrynodeb o awch i'w weld yn atodiad 3, ac mae'n Canllaw Rheoli Risg ynghlwm yn atodiad 4 (tudalennau 7-8, 17-18 a 21 yn y canllaw hwn).
- Yn ystod ein trafodaethau gyda'r perchnogion risg yn ystod adolygiad mis Chwefror a mis Medi, daeth hi'n amlwg nad yw risgiau sy'n ymwneud â Diogelu yn cyd-fynd yn gyfforddus ag awch ofalus ar gyfer Cydymffurfiaeth a Rheoleiddio. Yn dilyn cytundeb gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, fe ychwanegwyd categori newydd i ymdrin â Diogelu, ac mae ein awch yn minimol. Mae'r ychwanegiad yma i'w weld yn atodiad 3 yr adroddiad, ond hefyd o fewn y Canllaw Rheoli Risg sydd ynghlwm yn atodiad 4 (tudalennau 7 a 37 yn y canllaw).

4.5. Yn ogystal â'r newidiadau a amlinellwyd uchod i'r Canllaw Rheoli Risg, mae'r ddogfen sydd ynghlwm yn atodiad 4 wedi cael ei hail ysgrifennu er mwyn cydymffurfio â'r safonau hygyrchedd, gan achub ar y cyfle i'w diweddarau gydag unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf. Bychan fu'r

newidiadau hyn gan fwyaf, er enghraifft, diweddarau dolenni i wefannau, neu hen gyfeiriadau at y Tîm Gweithredol Corfforaethol.

Cofrestr Risg Gorfforaethol

4.6. Yn ystod yr adolygiad diweddaraf, mae effaith Covid-19 wedi bod ar flaen ein meddyliau, ac mae nifer o risgiau wedi cael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu'r effaith hyd yn hyn a'r goblygiadau at y dyfodol. Mae sgoriau rhai risgiau wedi cynyddu mewn difrifoldeb o ganlyniad i hyn. Mae'r holl newidiadau y cytunwyd arnynt wedi cael eu nodi yn atodiad 2.

4.7. I grynhoi:

- Mae yna un risg newydd: **Risg 46 - Methiant i symud ymlaen i fabwysiadu'r cynllun sy'n cymryd lle'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)**. Mae'r risg yma wedi cael ei uwchgyfeirio o Gofrestr Risg Cynllunio, Gwasanaeth Cefn Gwlad a Gwarchod y Cyhoedd ac mae'n Risg Critigol (Effaith Bron yn Bendant/Uchel) ar hyn o bryd. Mae manylion llawn i'w gweld yn atodiad 1 a 2.
- Nid oes unrhyw risgiau wedi'u tynnu.
- Mae ein risg o ran yr economi a'r galw/pwysau posibl y byddai dirywiad yn ei roi ar ein gwasanaethau wedi cynyddu yn ei hanfod mewn difrifoldeb o C1 (Risg Critigol: Effaith Posibl/Uchel lawn) i B1 (Risg Critigol: Effaith Tebygol /Uchel lawn), ac yn weddilliol o C2 (Risg Mawr: Effaith Posibl/Uchel) i B2 (Risg Critigol: Effaith Tebygol / Uchel). Mae camau ychwanegol wedi cael eu nodi er mwyn lliniaru'r risg.
- Mae ein risg o ran ymateb i ddigwyddiad difrifol annisgwyl wedi cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu at y rheolau Covid-19 sydd yn eu lle.
- Mae difrifoldeb gweddilliol ein risg ynglŷn â rhwymedigaethau sylweddol yn deillio o fodolau amgen o gyflwyno gwasanaeth wedi cynyddu oherwydd Covid-19 o E2 (Risg Cymedrol: Effaith Prin/Uchel) i C2 (Risg Mawr: Effaith Posibl/Uchel).

- Mae Risg 18 yn cydnabod oedi i raglenni a phrosiectau yn sgil Covid-19 ac mae'n nodi canlyniad cadarnhaol yr adolygiad cyfran diweddar ar y rhaglen Cynllun Corfforaethol.
- Mae diweddariad am y cynnydd presennol a chamau pellach wedi cael eu nodi mewn perthynas â'r risg o ran Clefyd Coed Ynn.
- Does dim risg wedi lleihau yn eu difrifoldeb.
- Mae Risgiau 1, 6, 12, 21, 27, 33, 34, 36, 37 a 44 (gweler atodiad 2) yn anghyson gyda Datganiad Awch am Risg y Cyngor (atodiad 3). Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu mewn trafodaethau gyda pherchnogion risg, a'u sgorio cyfredol yn cael eu cytuno i fod yn briodol. Mae'r anghysonder yn cyfiawnhau bod eu cynhwysiant yn cael eu monitro fel risgiau corfforaethol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Diben y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi'u canfod, a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, dylid asesu effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Yn y lle cyntaf, cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda Pherchnogion Risg.

- 8.2. Yna cafodd y gofrestr a'r canllaw eu trafod a'u cymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Gofynnwyd i'r Cabinet gytuno a/neu wneud diwygiadau pellach hefyd.
- 8.3. Mae'r gofrestr a chanllaw mwyaf diweddar wedi cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio cyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ei ystyried.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

- 11.2. Mae Adran 7.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu y dylai'r gwasanaeth Archwilio adolygu neu archwilio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.